# Atodiad 6 :

# Polisi ar recriwtio cyn-droseddwyr

Penodwyd y Panel Diogelu Cydenwadol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gynorthwyo gydag asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi sy'n cael eu cynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 fel y diwygiwyd), gan ddefnyddio gwiriadau cofnodion troseddol a broseswyd drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r polisi hwn ar recriwtio cyn-droseddwyr, ar gael i bob ymgeisydd am wiriad DBS ar ddechrau'r broses recriwtio.Yr ydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer y DBS ac yn tynnu sylw ymgeiswyr ydd am wiriad DBS at fodolaeth cod ymarfer ac mae copi ar gael, os gofynnir amdano.

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn ymroddedig i drin pob ymgeisydd am swyddi yn deg ac i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn unrhyw un sydd â chollfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir. Ni fydd y ffaith bod gen unigolyn gofnod troseddol yn ei rhwystro rhag gweithio o fewn yr eglwys. Mae hyn yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir y trosedd(au).

Rydym yn ymroddedig i drin yn deg ddefnyddwyr ein gwasanaeth, ein staff, darpar staff a gwirfoddolwyr, beth bynnag eu hil, rhyw, crefydd, tueddfryd rhywiol, cyfrifoldebau am bobl ddibynnol, oedran, anabledd corfforol/feddyliol neu gefndir troseddol. Rydym yn hybu'n cyfleoedd cyfartal i bawb sydd â'r cymysgedd iawn o ddoniau, medrau a photensial ac rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn cynnwys pobl gyda chofnodion troseddol. Rydym yn dewis gweithiwr a gwirfoddolwr potensial ar sail eu medrau, cymwysterau a phrofiad ac yn annog ein defnyddwyr gwasanaeth i weithredu yn yr un modd.

Gofynnir am gais am wiriad cofnod troseddol ar gyfer swyddi cymwys yn unig fel y diffinnir gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac a gynhwysir yn y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 (Eithriadau) 1975 Gorchymyn a'r Ddeddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol). Gall y Panel Diogelu Cydenwadol ond yn gofyn i unigolyn gyflwyno manylion collfarnau neu rybuddion y mae gennym hawl cyfreithlon i wybod amdanynt (hynny yw, lle gellir gofyn am dystysgrif DBS safonol neu fanwl yn gyfreithlon). Gall y Panel ond gofyn i unigolyn am euogfarnau a rhybuddion nad ydynt wedi'u 'diogelu' ac rydym yn cyfeirio ymgeiswyr at y canllawiau a'r meini prawf sy'n egluro hidlo rhybuddion ac euogfarnau hen a mân sydd bellach yn cael eu 'diogelu'.

Ar gyfer y rolau sy'n nodi bod datgeliad cofnodion troseddol yn angenrheidiol, bydd ffurflenni gais, hysbysebion swyddi, a chyfarwyddyd recriwtio yn cynnwys datganiad yn nodi y bydd gofyn am Ddatgeliad pe bai'r unigolyn yn cael cynnig y swydd.

Rydym yn sicrhau bod pawb sydd yn cymryd rhan yn y broses recriwtio wedi cael hyfforddiant addas ar sut i ganfod ac asesu perthnasedd troseddau a'u hamgylchiadau.

Mewn cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, rydym yn sicrhau bod trafodaeth agored a phwyllog yn digwydd ar bwnc unrhyw droseddau neu fater arall a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Gallai methiant i ddatgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd arwain at tynnu'r cynnig cyflogaeth yn ôl. Rydym yn ymrwymo i drafod unrhyw fater a ddatgelir mewn datgeliad DBS gyda'r person sy'n ceisio am y swydd cyn tynnu cynnig cyflogaeth amodol yn ôl.

Diweddariadau 2022/23